# Adroddiad Alffa
Cyd

cyd.cymru

1. **Nodau a chefndir** 4

1.1. Dylunio ac adeiladu gwasanaethau 5

1.2. Cyfathrebu â rhanddeiliaid 5

1.3. Adroddiad Alffa 5

2. **Mesur llwyddiant** 6

2.1. Sut mae Alffa da yn edrych 6

2.2. O CRC i Cyd 7

2.3. Sut mae gwasanaeth da yn edrych 7

**3. Tîm 8**

**4. Dull 8**

4.1. Dull UCD 8

4.2. Dull cyflawni ystwyth 9

4.3. Gweithio yn agored 10

5. **Canfyddiadau** 11

5.1. Fframio 11

5.2. Ymgysylltu 12

5.3. Esblygu 15

**6. Argymhellion ar gyfer cam alffa estynedig cyd 17**

6.1. Sefydlu llywodraethu Cyd a model gweithredu 18

6.2. Monitro a gwerthuso, a gwella'n barhaus 18

6.3. Bwrw ymlaen â datblygiad y gwasanaeth adrodd allyriadau carbon 18

6.4. Datblygu'r templedi astudiaeth achos ac adeiladu hyb gwybodaeth ar gyfer y daith gaffael 19

6.5. Gweithio drwy'r ôl-groniad blaenoriaethol 20

6.6. Cyd-fynd â gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn ehangach 20

6.7. Cysoni â newid rheoleiddiol 20

6.8. Cymhwyso'r fethodoleg yn fwy eang a mireinio 21

6.9. Ehangu cymuned Cyd 21

# Crynodeb Gweithredol Adroddiad Alffa

## 1. Nodau a chefndir

Pwrpas y prosiect hwn yw datblygu cymorth i weithwyr proffesiynol masnachol a chaffael yng Nghymru i roi Polisïau Caffael Cymru ar waith drwy eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r angen am ateb gwell i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau gwell wedi bodoli ers peth amser.

Roedd dau argymhelliad a oedd yn amlygu'r angen i archwilio 'Canolfan Ragoriaeth Caffael' (CRC), un gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r llall gan banel o arbenigwyr sy'n cefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru. Arweiniodd y sbardunau hyn at y cam Darganfod yn y maes hwn, a gynhaliwyd gan Upside Projects Ltd a chanfuwyd:

- Mae angen CRC a gaiff ei harwain gan y gymuned, ond sy'n cael ei chefnogi'n ganolog, sydd o natur ddigidol ac annigidol;
- Mae angen i'r CRC fod yn hygyrch i bob rhanddeiliad a bod yn fodd i greu capasiti, yn hytrach na gwastraffu adnoddau.;
- Dylai datblygiad y CRC ddechrau'n fach, gyda chynnyrch sylfaenol hyfyw; ac
- Er mwyn cael hyn yn iawn, mae angen i'r CRC fod yn wahanol i wasanaethau eraill fel yr hen Wasanaeth Caffael Cenedlaethol. (NPS).

Comisiynwyd CURSHAW, mewn partneriaeth â Perago, i gwblhau'r cam Alffa, gan ganolbwyntio ac adeiladu ar ganfyddiadau'r cam Darganfod – a phrofi'r cysyniadau a'r argymhellion hyn.

Y prif faes ffocws ar gyfer cam cychwynnol Alffa oedd archwilio'r angen am CRC yng nghyd-destun maes polisi sero net a datgarboneiddio. Roedd hefyd angen cydnabod rhywfaint o'r cyd-destun ehangach o amgylch y CRC o ran Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r Bil Caffael.

Dyma oedd nodau cam Alffa cychwynnol y prosiect oedd:

**Rhannu arfer gorau** - dylunio, adeiladu a phrofi gwasanaeth er mwyn rhannu arfer gorau wrth fabwysiadu polisi drwy gaffael. Gwasanaeth posibl fyddai'r gallu i brynwyr ddeall pa bolisïau y dylent eu cymhwyso i bob contract a chreu trefniadau i rannu arfer gorau yn gysylltiedig â hynny.

**Datblygu mewnwelediad** - datblygu canllawiau, offer ac astudiaethau achos sy'n rhoi mewnwelediad i drefniadau i alluogi polisi, wedi'u cefnogi gan friffiau i'r gymuned CRC ar faterion allweddol.

**Hyfforddiant cefnogi** - datblygu catalog hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol) y gellir ei ddefnyddio fel mecanwaith i ehangu cyrhaeddiad rhaglenni datblygu galluogrwydd yng Nghymru.

Bwrwyd ymlaen â’r ffrydiau gwaith canlynol yn ystod cyfnod cychwynnol Alffa:

### 1.1. Dylunio ac adeiladu gwasanaethau

Roedd y ffrwd waith hon yn hwyluso gweithgarwch cyflawni yn ymwneud â meysydd gwasanaeth allweddol. Roedd y cwmpas yn cynnwys:

- Gwasanaeth i rannu arfer da:
  - ar fabwysiadu polisi drwy gaffael a materion caffael a masnachol ehangach; a
  - galluogi prynwyr i ddeall pa bolisi y dylent ei chymhwyso i ba gontract a meithrin trefniadau i rannu arfer gorau yn gysylltiedig â hynny.

- Gwasanaeth i roi mewnwelediad byw i'r polisi caffael a threfniadau i alluogi polisi yng Nghymru:
  - darparu canllawiau, offer ac astudiaethau achos, wedi’u cefnogi gan friffiau i randdeiliaid; a
  - rhannu mewnwelediad byw i faterion allweddol sy'n effeithio ar gaffael yng Nghymru, gan annog defnydd o'r CRC ac arfer da.

- Lle canolog i gael hyd i hyfforddiant:
  - sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn hawdd a’i fod yn berthnasol i anghenion y proffesiwn masnachol a chaffael a rhanddeiliaid eraill;
  - gan gynnwys catalog hyfforddi (ffurfiol ac anffurfiol); ac
  - ehangu cyrhaeddiad rhaglenni datblygu galluogrwydd yng Nghymru.

Bwriad y gwasanaethau hyn oedd caniatáu i ddefnyddwyr weithredu polisïau, gan ganolbwyntio i ddechrau ar feysydd polisi Llywodraeth Cymru sy'n cyflawni yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### 1.2. Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Roedd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar reoli’r gwaith ymgysylltu a chyfathrebu â’r holl randdeiliaid sy’n ymwneud â’r prosiect. Roedd y cwmpas yn cynnwys:

- ymarfer mapio rhanddeiliaid, gan nodi a chategoreiddio rhanddeiliaid;
- cynllun cyfathrebu, gan gynnwys dulliau ac amlder ymgysylltu, sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Gymraeg; a
- datblygu cysyniad a dyluniad brand.

### 1.3. Adroddiad Alffa

Roedd y ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar ddatblygiad yr Adroddiad Alffa, gan ddangos dichonoldeb y prosiect, a chyflwyno’r achos dros symud ymlaen i'r cam Alffa Estynedig. Dyma oedd y cwmpas:

- dangos y gallai'r prosiect greu rhywbeth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac sy'n gost-effeithiol;
- dangos bod cyllideb ac adnoddau digonol i gyflawni’r hyn sydd ei angen;
- mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at honiadau ac argymhellion; a

- darparu cynllun prosiect drafft, gan gynnwys amserlenni ar gyfer y Cam Alffa Estynedig .

Yn wreiddiol, y cynllun oedd symud ymlaen i Beta ar ôl cwblhau'r cam Alffa cychwynnol 6 mis. Arweiniodd trafodaethau dilynol o fewn Llywodraeth Cymru at gynllun datblygedig ar gyfer cam Alffa Estynedig rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i ddatblygu dealltwriaeth glir, ac arddangosiad, o'r gwasanaeth a gynigir mewn cydweithrediad â'r gymuned. Bydd hefyd yn galluogi'r tîm i ddatblygu'r gwasanaethau cyntaf y bydd Cyd yn eu darparu, eu profi a chreu map trywydd ar gyfer cyflawni yn seiliedig ar flaenoriaethau ac anghenion y gymuned.

## 2. Mesur llwyddiant

Roedd y prosiect yn mesur llwyddiant ar draws dau safbwynt gwahanol; a yw'r tîm wedi cwblhau'r cam Alffa cychwynnol llwyddiannus ac a yw cynyddrannau'r gwasanaeth wedi dangos gwerth digonol.

### 2.1. Sut mae Alffa da yn edrych

Mae'r tabl isod yn manylu ar sut rydym wedi mesur llwyddiant y cam Alffa cychwynnol. Dangosir hyn mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn:

| Canlyniad | Sut y bydd hyn yn cael ei ddangos |
|---|---|
| Rydym wedi profi ein rhagdybiaethau mwyaf mentrus | • Rydym wedi cofnodi ein rhagdybiaethau<br>• Gallwn ddangos sut rydym wedi eu profi<br>• Gallwn ddangos sut y cawsant eu hystyried wrth ddatblygu'r gwasanaeth |
| Rydym wedi deall anghenion y gymuned a sut y gellir eu bodloni | • Rydym wedi ymgysylltu â'r holl gymunedau a rhanddeiliaid perthnasol<br>• Rydym wedi cofnodi eu hanghenion<br>• Rydym wedi diffinio atebion posibl ar gyfer sut y gellir bodloni'r anghenion hyn<br>• Gallwn fesur yr effaith ar y maes polisi |
| Rydym wedi datblygu, profi ac iteru meysydd gwasanaeth blaenoriaeth | • Rydym wedi datblygu'r holl brototeipiau perthnasol<br>• Rydym wedi eu profi gyda defnyddwyr<br>• Rydym wedi eu hiteru ar sail adborth ac mae gennym gynllun ar gyfer sut y byddant yn esblygu |
| Rydym wedi diffinio taith y defnyddiwr a sut mae'n ymuno â sianeli neu wasanaethau eraill | • Rydym yn deall sut y bydd pobl yn cyrchu ein gwasanaethau a'u taith i'w defnyddio<br>• Rydym yn deall pob elfen o'r gwasanaeth e.e. ar-lein neu all-lein<br>• Rydym wedi deall tirwedd y gwasanaeth ac yn gallu dangos sut y gallwn chwalu seilos |
| Rydym wedi gweithio yn agored | • Rydym wedi diffinio ein sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu<br>• Mae gennym ni fetrigau i ddangos sut rydym wedi ymgysylltu a'r effaith rydym wedi'i chael |

### 2.2. O CRC i Cyd

Dywedodd gwybodaeth ac adborth gan y gymuned am bwrpas a ffocws y gwaith fod rhai pobl yn teimlo y gallai’r enw ‘Canolfan Ragoriaeth Caffael’ gael ei ystyried fel rhywbeth elitaidd, ac nid rhywbeth sy’n canolbwyntio ar y gymuned. Roeddem am greu enw mwy cydweithredol a chynhwysol a oedd yn adlewyrchu'r teimlad roeddem ni’n ei gael trwy'r adborth. Roeddem hefyd eisiau sicrhau bod y Gymraeg yn arwain yn hytrach na'n dilyn wrth greu'r gymuned gefnogol newydd hon – roeddem am ddod o hyd i enw a fyddai'n gweithio yn y ddwy iaith ond a oedd yn deillio o'r Gymraeg. Brand a grëwyd gyda'r Gymraeg yn ganolog iddo yn hytrach na’n rhywbeth a gaiff ei ôl-osod unwaith i’r penderfyniadau gael eu gwneud.

Yn dilyn ymchwil defnyddwyr a gweithdai ar yr enw a'r brandio, penderfynwyd enwi'r gymuned a'r prosiect 'Cyd'. Mae Cyd yn gallu golygu *uniad, cyplysiad, cydiad; undeb, cyfuniad*. Mae'n air cryno, cysyniadol sydd hefyd yn gweithio'n dda gydag is-bennawd fel ‘Yn dod â chymunedau masnachol a chaffael ynghyd’ / ‘Bringing commercial and procurement communities together’.

### 2.3. Sut mae gwasanaeth da yn edrych

#### 2.3.1. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023

Yn seiliedig ar adborth gan y grŵp profi yn ystod sesiwn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2023, mae’r pwyntiau canlynol yn diffinio ‘sut mae gwasanaeth da yn edrych’ iddyn nhw erbyn diwedd mis Mawrth 2023:

- **Storfa ar gyfer cynnwys sy’n gysylltiedig â Cyd** - lansiwyd cam cyntaf gwefan Cyd ym mis Mawrth 2023. Bydd y safle hwn yn fan cydweithredol ar gyfer cymunedau caffael a masnachol yng Nghymru. Mae'r cam cyntaf yn gweithredu fel storfa ar gyfer ein holl gynnwys hyd yma, gan gynnwys blogiau, sesiynau dangos a dweud, a gweminarau. Mae hefyd yn amlinellu sut y gall pobl gymryd rhan wrth i ni barhau i ddatblygu'r gwasanaethau.
- **Mecanwaith ar gyfer gwelliant parhaus** – mae'r holl wasanaethau a ddiffinnir fel rhan o Cyd, a amlinellir yn fanylach o fewn yr adroddiad hwn, yn agored i welliannau parhaus. Rydym wedi sefydlu grŵp profi defnyddwyr gweithredol sy'n helpu i lunio ac iteru’r gwasanaethau rydym yn eu datblygu.
- **Arddangos gwaith cydweithio** – yn ogystal â’r grŵp profi defnyddwyr, rydym wedi ymrwymo i weithio’n agored i gefnogi sicrhau canlyniadau gwell i weithwyr proffesiynol masnachol a chaffael, a phobl Cymru. Rydym wedi bod wrthi’n ymgysylltu ac yn cydweithio â rhanddeiliaid, o fewn y sector cyhoeddus ac yn ehangach. Mae cydweithredu parhaus yn rhan hanfodol o'n cynlluniau datblygu gwasanaeth (a amlinellir yn yr adroddiad hwn) i wneud yn siŵr ein bod yn parhau i gael ein harwain gan y gymuned ac yn bodloni anghenion defnyddwyr.
- **Arddangos llwyddiannau** – Rydym wedi cynnal sesiynau dangos a dweud rheolaidd gyda'r gymuned drwy gydol y cyfnod Alffa i ddangos cynnydd a rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau. Rydym hefyd wedi datblygu templed astudiaeth achos ar gyfer Cyd ac yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid cymunedol i

arddangos llwyddiant y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd. Mae cysyniad allweddol rydym wedi'i gyflwyno yn cynnwys defnyddio ‘straeon newid’. Er nad ydyn nhw’n astudiaethau achos llawn, mae'r rhain yn enghreifftiau o arfer da y gellir eu rhannu trwy gydol y daith newid.

- **Gweledigaeth ar gyfer y tymor hwy a chynllun ar gyfer y camau nesaf** – yn seiliedig ar ein hymgysylltiad hyd yn hyn, mae gennym ni weledigaeth glir ar gyfer Cyd a'i wasanaethau.

#### 2.3.2. Y tu hwnt i fis Mawrth 2023

Hefyd yn seiliedig ar adborth gan y grŵp profi yn ystod sesiwn mis Ionawr 2023, mae’r pwyntiau canlynol yn diffinio ‘sut mae gwasanaeth da yn edrych’ iddyn nhw y tu hwnt i fis Mawrth 2023, sy’n cyd-fynd â’r argymhellion ar gyfer Alffa Estynedig Cyd:

- Math newydd o gaffael sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn sicrhau gwerth i bobl Cymru;
- Ffyrdd gwell o weithio gyda chyflogwr sy’n fwy gwydn ac yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael;
- Set gydlynol o wybodaeth a data y gellir eu hailddefnyddio i alluogi canlyniadau gwell;
- Gwell cydweithredu o fewn y proffesiwn ac yn ehangach, cydweithio fel rhan o gyfanwaith cydlynol, gan gydnabod tebygrwydd a gwahaniaethau ar draws y cylch oes; a
- Dolen adborth i Lywodraeth Cymru i lywio a chefnogi datblygiad polisi, deddfwriaeth a gwybodaeth newydd.

## 3. Tîm

Mae tîm y prosiect yn dîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol masnachol, cyflawni ystwyth a dylunio sy’n canolbwyntio ar y defnyddiwr (UCD) o Lywodraeth Cymru, CURSHAW a Perago.

## 4. Dull

### 4.1. Dull UCD

Roedd cam cychwynnol Alffa yn canolbwyntio ar brofi anghenion y gymuned, atebion posibl i fodloni’r anghenion hynny a throi'r rhain yn bethau diriaethol i'w profi trwy ddefnyddio dull UCD. Mae hon yn broses ddylunio iterus lle mae penderfyniadau'n canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr. Yn y bôn, mae’r cam hwn yn ymwneud â chydweithio, rhannu’n agored, meithrin cymunedau a symud ymlaen yn gyflym.
Roedd cymuned yn thema gref ac yn flaenoriaeth yn y gwaith Darganfod y seiliwyd y cam Alffa arno. Hynny yw, gweithio gyda’r gymuned i ddeall beth sy’n bodoli y gellid ei ysgogi, er mwyn galluogi cymuned sydd â mynediad at arbenigedd a gwybodaeth berthnasol, a’r cymorth cywir o ran gweithredu ymarferol.
Er mwyn hwyluso hyn, defnyddiwyd ein dull Fframio, Ymgysylltu, Esblygu:

#### 4.1.1. Fframio

Mae Fframio’n gam byr sy'n ein galluogi i archwilio'r gofod problemus fel y'i diffinnir yn y cam Darganfod, a fframio cyfleoedd gan ddefnyddio meddylfryd dylunio i gryfhau cysyniadau gwasanaeth. Yn ystod y cam Fframio, fe wnaethom ddarganfod a diffinio pob gwasanaeth trwy ddeall

a nodi'r broblem i'w datrys o safbwynt y defnyddiwr (er enghraifft cymuned caffael sector Cyhoeddus Cymru).

Gwnaethom ystyried y datganiad gwerth, a datblygu cynfas datganiad gwerth, o amrywiaeth o safbwyntiau defnyddwyr, cyfreithiol ac ar lefel system, a gwnaethom ddatblygu canlyniadau a oedd yn ymwneud â'r argymhellion a wnaed yn yr 'Adolygiad o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llywio caffael yng Nghymru' a chanfyddiadau'r darganfyddiad.

#### 4.1.2. Ymgysylltu

Roedd y cam Ymgysylltu yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarnach o bob un o'r meysydd gwasanaeth ar y cyd â'r gymuned, i greu cyfleoedd dylunio a syniadau ar gyfer atebion a allai fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

Yn ystod y cam Ymgysylltu troswyd anghenion ac ymddygiadau defnyddwyr gwasanaeth yn gyfleoedd dylunio a dechreuwyd cynhyrchu syniadau am atebion a allai fynd i'r afael â'r anghenion hynny sy'n seiliedig ar gaffael a'r rhai nad ydynt yn seiliedig ar gaffael. Fe wnaethom greu trosolwg o'r cyfleoedd mwyaf addawol ar gyfer pob gwasanaeth a chreu brasfodel o'r senarios hyn fel prototeipiau cynnar er mwyn rhoi arweiniad i ddefnyddwyr.

Sicrhaodd hyn fod gennym ddealltwriaeth glir o sut y gellid integreiddio'r cysyniadau gwasanaeth i lifoedd gwaith mwy o faint, ac i baratoi ar gyfer y cam 'Esblygu' pan wnaethom ddatblygu ymhellach gyfleoedd penodol i greu prototeipiau a phrofi mewn manylder.

#### 4.1.3. Esblygu

Yn ystod y cam Esblygu fe wnaethom symud ymlaen gyda chyfle penodol ar gyfer pob gwasanaeth a'u cydrannau cysylltiedig. Y cam hwn oedd y mwyaf dwys wrth i ni ddiffinio strategaeth ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth, disgrifio'r holl nodweddion i'w darparu, dylunio llifoedd gwaith / rolau mewnol, dogfennu argymhellion ac efelychu'r profiad gwasanaeth terfynol i'w lansio cyn ei fireinio, ei fesur a'i iteru ymhellach.

### 4.2. Dull cyflawni ystwyth

Gwnaethom ddefnyddio dulliau cyflawni ystwyth i gyflawni'r cam hwn o'r prosiect. Mae 'ystwyth' yn ffordd o reoli prosiectau i helpu timau i sicrhau bod yr hyn y maent yn ei wneud yn bodloni anghenion defnyddwyr, y gallant ddarparu gwerth yn gynnar a rheoli risg trwy gyflawni iterus. Y syniad yw creu amgylchedd dysgu parhaus sy'n caniatáu i'r tîm arbrofi a dysgu'n gyflym, darparu gwerth mewn darnau bach yn barhaus a chael adborth gan ddefnyddwyr trwy gydol yr oes gyflawni.

Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn dda â nodau'r prosiect hwn a'r dull gweithredu UCD. Os yw UCD yn ymwneud â 'beth' rydym yn mynd i'w wneud, gan ystyried safbwynt y defnyddiwr, darpariaeth ystwyth yw 'sut' rydym yn hwyluso cynnydd mewn ffordd gynyddrannol sy'n sicrhau gwerth yn gynnar ac yn rheoli risg yn well.

Yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiwyd ein profiad o ddefnyddio ffyrdd ystwyth o weithio, gan iteru trwy sbrintiau a sicrhau ein bod yn cynnwys dolen adborth a oedd yn caniatáu gwelliant parhaus. Nodweddwyd hyn gan sbrint, a barodd bythefnos ac a oedd yn cynnwys 4 seremoni:

#### 4.2.1. Cynllunio'r sbrint

Pwrpas y cyfarfod hwn yw i'r tîm adolygu'r ôl-groniad presennol ac i Berchennog y Cynnyrch gytuno ar y nodau sydd angen eu pennu ar gyfer y sbrint nesaf gan gynnwys y tasgau i'w cwblhau ac adolygiad o'r cerrig milltir targed disgwyliedig o fewn map trywydd y prosiect i sicrhau bod cynnydd priodol yn cael ei wneud.

#### 4.2.2. Adolygu'r Sbrint

Unwaith y bydd sbrint wedi'i gwblhau, bydd y tîm datblygu yn dangos y cynnydd a gwblhawyd yn ystod y sbrint. Mae'r tîm yn adolygu'r nodau ac yn rhoi eu sylwadau ar y tasgau a gwblhawyd. Mae'r Noddwyr a Perchnogion y Cynnyrch yn cymeradwyo'r cynnydd a wnaed.

#### 4.2.3. Ôl-sylliadau sbrint

Pwrpas y cyfarfod ôl-syllu yw trafod gyda'r tîm pa brosesau neu arferion aeth yn dda yn ystod y sbrint, pa brosesau ac arferion sydd angen eu gwella, a beth ellir ei wneud yn wahanol. Mae'n sesiwn allweddol wrth adolygu ffyrdd o weithio'r tîm a hwyluso amgylchedd dysgu parhaus.

#### 4.2.4. Cyfarfod ar eich sefyll

Pwrpas y cyfarfodydd tîm hyn yw i bawb drafod eu cynnydd yn seiliedig ar y tasgau ymrwymedig, yr hyn y maent yn gweithio arno ar hyn o bryd ac unrhyw broblemau neu rwystrau y gall y tîm ehangach eu datrys. Mae hon yn sesiwn bwysig i sicrhau bod y tîm yn atebol i'w gilydd am y tasgau y cytunwyd arnynt ar y cyd ar ddechrau'r sbrint, ac y gallant wneud cynnydd yn gyflym, ar y cyd.

### 4.3. Gweithio yn agored

Ffactor galluogi arwyddocaol i UCD a ffyrdd ystwyth o weithio yw gweithio yn yr awyr agored. Rydym wedi ymrwymo i weithio yn agored, gan ddangos cynnydd yn ogystal â siarad yn agored am gamgymeriadau, newidiadau, a phethau rydym wedi'u dysgu. Mae'r dull hwn yn helpu i gynyddu momentwm o amgylch y newidiadau arfaethedig yn ogystal ag amlygu ein gwaith i randdeiliaid a gwella ansawdd a rheoli dibyniaeth. Yn ogystal â'n seremonïau ystwyth, sy'n helpu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm a rhanddeiliaid allweddol ac yn sicrhau eu bod nhw'n ymgysylltu â'r prosiect, rydym hefyd wedi sefydlu nifer o sianeli i'n galluogi i rannu ein cynnydd a'n canfyddiadau mor eang â phosibl.

#### 4.3.1. Blogio

Rydym wedi sefydlu amserlen o negeseuon blog i'w rhannu'n agored am ein gwaith a'n cynnydd. Yng nghamau cychwynnol y prosiect, gwnaethom ddefnyddio blog Tîm Digidol a Data Llywodraeth Cymru i rannu ein negeseuon. Mae gwefan gychwynnol Cyd yn darparu tudalen lanio a chartref ar gyfer ein blog ein hunain, a dyma lle bydd yr holl bostiadau sy'n ymwneud â'r prosiect nawr yn cael eu cyhoeddi. Yn ogystal â negeseuon gan dîm y prosiect, rydym yn gwahodd blogiau gwadd o'r gymuned fasnachol a chaffael i ehangu'r ymgysylltiad â'n gwaith.

Cyhoeddwyd wyth erthygl blog yn ystod cam Alffa cychwynnol y prosiect.

#### 4.3.2. Sesiynau dangos a dweud

Rydym yn cynnal sesiynau dangos a dweud misol lle rydym yn rhannu ein cynnydd gyda rhanddeiliaid, ac unrhyw un sydd â diddordeb yn ein gwaith. Rydym yn rhannu'r gwahoddiad yn agored ac mae'r sesiynau'n cael eu recordio a'u cyhoeddi ar sianel YouTube Gwerthwch i Gymru. Mae'r holl sesiynau dangos a dweud yn cael eu cyhoeddi ar dudalen digwyddiadau Cyd.

Cynhaliwyd pedair sesiwn dangos a dweud yn ystod cam Alffa cychwynnol y prosiect.

#### 4.3.3. Cydrannu

Cydrannu yw enw'r gyfres rhannu gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael a masnachol yng Nghymru, a lansiwyd gennym ym mis Mawrth 2023. Mae Cydrannu yn golygu 'rhannu gyda'n gilydd', ac mae'n greiddiol i'r hyn y mae Cyd yn ei olygu.
Lansiwyd Cydrannu i ddechrau fel gweminarau ar-lein (sydd hefyd yn cael eu recordio a'u rhyddhau ar wefan Cyd i rannu'r cynnwys mor eang â phosibl) ac rydym yn bwriadu ategu'r rhain gyda sesiynau wyneb yn wyneb / hybrid.
Bydd sesiynau Cydrannu yn edrych ar y pynciau a'r materion sy'n wynebu cymunedau caffael a masnachol yng Nghymru, ac yn clywed gan siaradwyr gwadd ac aelodau o'r gymuned a fydd yn rhannu eu profiad ac yn sbarduno sgyrsiau.
Mae recordiadau o sesiynau Cydrannu yn cael eu cyhoeddi ar dudalen digwyddiadau Cyd.

#### 4.3.4. Sesiynau rhanddeiliaid

Yn dilyn ein hymarfer mapio rhanddeiliaid cychwynnol, fe wnaethom nodi'r cymunedau, grwpiau ac unigolion sy'n allweddol i lwyddiant y gwaith hwn. Ers y cychwyn cyntaf rydym wedi cyflwyno i grwpiau rhanddeiliaid ledled Cymru ac wedi arwain sgyrsiau ar ffocws Cyd, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei arwain gan y gymuned.

#### 4.3.5. Creu grŵp profi

Mae ein grŵp profi defnyddwyr wedi bod yn ddull craidd i'r gwaith hwn a gaiff ei arwain gan y gymuned. Yn ogystal â rhoi adborth amhrisiadwy i ni, mae'n rhoi cyfle i ni gyflwyno'n uniongyrchol i weithwyr proffesiynol masnachol a chaffael ledled Cymru a'u cynnwys yn ein cynnydd.

# 5. Canfyddiadau

## 5.1. Fframio

#### 5.1.1. Pennu man cychwyn

Nod ein hymgysylltiad cychwynnol â chyrff y sector cyhoeddus a chyrff anllywodraethol yng Nghymru oedd deall y datblygiadau presennol o ran canllawiau polisi sero net - Nodyn Polisi Caffael Cymru (WPPN) 12/21 Datgarboneiddio drwy gaffael i fynd i'r afael â CO2e mewn cadwyni cyflenwi - a sut y caiff ei gymhwyso.

Cynhaliwyd ymchwil bwrdd gwaith i adolygu’r hyfforddiant, y cyngor polisi a’r arfer gorau sydd ar gael yng Nghymru, mewn gwledydd datganoledig eraill, ledled y DU a thramor.

#### 5.1.2. Mapio rhanddeiliaid

Oherwydd Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) roedd angen dechrau ein gwaith o adnabod a mapio rhanddeiliaid o'r dechrau. Cynhaliom nifer o weithdai ar-lein a gweithdy wyneb yn wyneb, lle gwnaethom nodi'r grwpiau a'r sefydliadau allweddol yr effeithir arnynt gan y gwaith hwn, neu sydd â buddiant ynddo. Ar ôl i ni ddeall eu buddiannau a'u hanghenion, rydym wedi gallu creu dull rheoli rhanddeiliaid sydd wedi caniatáu inni gyrraedd y cymunedau y mae angen inni ymgysylltu â nhw, a sicrhau ein bod yn darparu'r cyfathrebu a'r cyfle cywir i ymgysylltu, ar yr adeg iawn.

Rydym yn cynnal sesiynau rhanddeiliaid wythnosol fel tîm prosiect i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl iawn ar yr adeg iawn. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig wrth sicrhau bod gennym gynrychiolaeth o bob sector a lleoliad daearyddol i gymryd rhan mewn sesiynau profi a gweithdai grŵp. Mae hyn yn caniatáu gweledigaeth ehangach i ni ac yn ein helpu i gyrraedd lleisiau nas clywir yn aml yn ogystal â'r rhai sy'n gyfarwydd ag ymgysylltu â phrosiectau a mentrau.

#### 5.1.3. Arolwg ar angen hyfforddiant

Lansiwyd arolwg gennym yn nigwyddiad Procurex Cymru yng Nghaerdydd ar 8 Tachwedd 2022 a chasglwyd ymatebion i'r arolwg hwn i nodi anghenion hyfforddi'r gweithwyr proffesiynol caffael a masnachol. Yna, gwnaethom rannu'r un arolwg â phobl yr oeddem wedi ymgysylltu â nhw. Dangosodd yr ymatebion fod angen hyfforddiant ar randdeiliaid yn y meysydd canlynol:

- Newidiadau rheoleiddiol – 47%;
- Caffael cynaliadwy – 43%; a
- Rheoli contractau - 42%.

Roedd canlyniad yr arolwg yn sail i'r rhestr hir o wasanaethau ar gyfer rhannu gwell arferion, datblygu mewnwelediad, a mynediad at hyfforddiant, a'u cyflwyno i'r gymuned i flaenoriaethu 'r gwaith prototeipio.

#### 5.1.4. Canfyddiadau – Cymru

Mae'r grwpiau y buom yn ymgysylltu â nhw i gyd yn gweithio tuag at y nod cyffredin o gyflawni sero net erbyn 2030. Mae ffocws cyfredin ar ddefnyddio caffael fel cyfrwng i gyflawni sero net. Mae'n bwysig gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac nid mewn seilos a rhannu arfer gwell fel y gall pob sector elwa.

#### 5.1.5. Canfyddiadau – y DU gyfan

Mae deunydd ar gael yn y DU, rhai wedi'u datblygu'n unigol gan wledydd datganoledig eraill tra bod deunydd arall ar gael ledled y wlad. Mae hyn yn creu cyfle i ddysgu nid yn unig gan sefydliadau yng Nghymru sydd ar y blaen, ond gan y DU yn ehangach.

### 5.2. Ymgysylltu

#### 5.2.1. Yr enw

Gan adeiladu ar y dull a ddisgrifiwyd eisoes o dan O CRC i Cyd, yn ogystal â'r is-bennawd, rydym yn disgrifio Cyd fel 'gofod ar gyfer gweithwyr proffesiynol masnachol a chaffael yng Nghymru'. Mae Cyd

hefyd yn benthyg ei hun yn dda pan gaiff ei ddefnyddio fel rhagddodiad i ddatblygu is-benawdau o amgylch yr enw, a fydd yn gweithio ar gyfer gofodau cydweithio y byddwn yn eu creu fel rhan o'r prosiect.

Roeddem yn awyddus i gael adborth gan y gymuned, felly cyflwynwyd y dull o enwi a rhannwyd pedwar cysyniad dylunio gwahanol gyda'r gymuned i gael adborth.

#### 5.2.2. Cysyniadau brandio

Crëwyd pedwar cysyniad brandio, a gafodd wedyn eu profi gyda'r gymuned. Y cysyniad a ffefrir fwyaf yw'r brandio a ddefnyddir ar gyfer y Crynodeb Gweithredol hwn o'r Adroddiad Alffa.
Mae'r fersiwn hon yn cymryd yr 'c' o'r gair 'cyd' ac yn creu cyswllt cadwyn sy'n cynrychioli uniad neu ddod ynghyd. Roedd rhai o'r sylwadau am y fersiwn hon yn cynnwys:

> *"Mae'n ymddangos bod delweddau o gadwyni sy'n cyd-gloi'n hyrwyddo syniad unedig cryfach, yn yr un modd â chysylltiadau â chadwyni caffael a chyflenwi"; "Mae'n dynodi cysylltu ynghyd"; "Cydweithio";* a *"Chymuned"*

Er bod rhai pryderon nad oedd y logo yn glir ei fod yn gysylltiedig â chaffael neu wasanaethau cyhoeddus, bydd y dull yr ydym yn bwriadu ei ddefnyddio lle mae is-bennawd yn cyd-fynd â hyn a'i ddefnyddio fel rhagddodiad, yn helpu i wreiddio'r enw fel rhan o'r gymuned fasnachol a chaffael yng Nghymru.
Rydym wedi creu adnoddau brandio i gefnogi'r enw a'r logo newydd. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys rhithffurfiau (*avatars*) cyfryngau cymdeithasol, templedi ar gyfer cyflwyniadau a dogfennau, penawdau gwe, paletau lliw, llofnodion e-byst a thempledi cardiau busnes.

#### 5.2.3. Presenoldeb ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi lansio cartref dros dro i Cyd - cyd.cymru - a fydd yn ei osod yn gadarn yng Nghymru o safbwynt presenoldeb ar-lein. Mae'r wefan gychwynnol hon yn dudalen lanio ac yn llwyfan blogio, sydd wedi ein galluogi i letya diweddariadau, caniatáu i ddefnyddwyr gofrestru i gael rhagor o wybodaeth, a bod yn rhan o'n gweithgor. Mae hefyd yn cyfeirio defnyddwyr at gyfrifon cyfryngau cymdeithasol newydd ar gyfer Cyd ar Twitter a LinkedIn.

Wrth i'r cam Alffa Estynedig fynd rhagddo, byddwn yn datblygu prototeipiau ac yn profi gwasanaethau newydd a fydd angen presenoldeb ar y we fel man cyswllt ym mhrofiad y defnyddiwr. Wrth i ni ddatblygu gwasanaethau, byddwn yn gwella'r wefan yn barhaus i gefnogi gwasanaethau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr. Bydd hyn yn iterus a bydd yn cael ei lansio yn yr Alffa Estynedig, gan ddisodli'r presenoldeb gwe cychwynnol dros amser.

Mae metadata ar gyfer y parth yn cynnwys geiriau sy'n cefnogi optimeiddio peiriannau chwilio. Mae hyn yn bwysig yn nyddiau cynnar Cyd pan fydd defnyddwyr yn dod yn gyfarwydd â'r enw a'r brand newydd. Er mwyn cefnogi hyn, efallai y bydd angen nawdd â thâl am y 6 mis cyntaf. Byddwn yn defnyddio data dadansoddeg a pherfformiad dros yr amser hwn i lywio'r penderfyniad hwnnw.

#### 5.2.4. Rhestr hir o opsiynau gwasanaeth

Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cam 'Ymgysylltu', ynghyd â'r safbwyntiau cychwynnol a gasglwyd yn nigwyddiad ProcureX Cymru 2022 a'r arolwg dilynol, nodwyd yr opsiynau canlynol:

- **Rhannu arfer da:**
  - **Casglu ac adrodd ar ddata allyriadau carbon:** gweithio gyda'r gymuned i ddatblygu un fersiwn o amcangyfrif (cyn-gaffael), casglu ac adrodd (rheoli'r contract) data allyriadau carbon mewn modd ystyrlon;
  - **Dylunio cynnwys WPPN 12/21**: deall yr hyn y mae'r gymuned yn ei weld yn heriol wrth ystyried cymhwyso'r Rhwydwaith yn eu caffaeliadau a sut y gallwn wneud y polisi'n hawdd ei ddefnyddio ac yn rhyngweithiol;
  - **Cynnwys arfer da'r daith gaffael**: curadu cynnwys sy'n ymwneud â phob cam o'r cylch oes caffael / masnachol, a all roi gwybodaeth benodol i ymarferwyr cymunedol am bob cam (e.e. ymgysylltu â'r farchnad, caffael, rheoli contractau) sy'n ymwneud â sero net;
  - **Casgliad wedi'i guradu o ddeunyddiau o Gymru a gwledydd eraill:** enghreifftiau sy'n cyd-fynd â'n gwaith ar ddefnyddio dulliau masnachol a chaffael i helpu i roi polisïau sero net ar waith (e.e. arfer gorau, mewnwelediad a hyfforddiant, ymdrechion cymunedol, ac ati), llywio newid rheoleiddio, ac ati;

- **Datblygu mewnwelediadau:**
  - **Templedi astudiaeth achos / pensaernïaeth gwybodaeth / llyfrgell, ac ati wedi'u mapio i "guraduron" cymunedol:** mae nifer o bobl o fewn y grwpiau niferus rydyn ni wedi siarad â nhw wedi dweud bod ganddyn nhw astudiaethau achos da, a allai fod ar gael i'r cyhoedd neu beidio (gallai hyn gefnogi 'Mewnwelediad' ac 'Arfer Gorau');
  - **Map o gymunedau / grwpiau presennol a'u cyfranogwyr**: Rydym wedi siarad â llawer o grwpiau lle mae'r un bobl yn ymddangos mewn rhai ond nid eraill, lle mae rhai sgyrsiau sy'n gorgyffwrdd yn digwydd. Mapio asedau cymunedol;

- **Mynediad i hyfforddiant:**
  - **Cyflwyniad / mapio / "geirfa" cyffredin ar draws yr offer presennol sy'n cefnogi asesiadau gallu a hyfforddiant:** Er enghraifft, 'Local Authority Sustainable Procurement Toolkit' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), 'Adolygiad Aeddfedrwydd Caffael Cynaliadwy' Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) Cymru, ac ati;
  - **Cynnwys hyfforddi'r daith gaffael**: creu / curadu cynnwys hyfforddi sy'n ymwneud â phob cam o'r cylch

oes caffael / masnachol, a all roi gwybodaeth i ymarferwyr cymunedol (e.e. ymgysylltu â'r farchnad, caffael, rheoli contractau) sy'n ymwneud â sero net;


- **Paratoi ar gyfer newid cymhleth ar raddfa fawr:** mae newid rheoleiddiol ar ffurf Bil Caffael Llywodraeth y DU, a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) Llywodraeth Cymru, yn dod yn fuan. Darperir hyfforddiant unwaith y bydd y manylion yn hysbys, ond byddai hyn yn canolbwyntio ar sut i baratoi ar gyfer newid drwy ddysgu o brofiadau'r gorffennol a chael hyfforddiant priodol wrth reoli newid;
- **Anghenion diwygio rheoleiddiol ac anghenion sero net yn gorgyffwrdd:** y disgwyliadau yw y bydd newidiadau'n digwydd yn ystod yr un amser (h.y. 2023-24), felly dylid ystyried hyfforddiant (e.e. ar 'sicrhau canlyniadau masnachol da ac effaith a alluogir gan y rheoliadau newydd', ac 'ymgorffori net sero a datgarboneiddio fel rhan o ymgysylltu cynnar â'r farchnad') yn gyflenwol; a
- **Pennu man cychwyn yn erbyn 'Cryn bellter ar hy y daith 2022-2026'**: gorgyffwrdd pob un o'r uchod a pennu man cychwyn gyda '[Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'].

## 5.3. Esblygu


### 5.3.1. Canlyniadau'r arolwg

Roedd ymatebion yr arolwg gan y grŵp profi yn rhestru'r opsiynau gwasanaeth ar gyfer pob un o'r 3 maes (rhannu arfer da, datblygu mewnwelediadau a mynediad at hyfforddiant). Dyma'r canlyniadau:


**Rhannu arfer da**




**Datblygu mewnwelediadau**




**Mynediad i hyfforddiant**




### 5.3.2. Rhestr hir o opsiynau gwasanaeth

Yn seiliedig ar ymatebion yr arolwg gan y grŵp profi, blaenoriaethwyd yr opsiynau gwasanaeth uchaf ar gyfer pob un o'r 3 maes:

- **Rhannu arfer da:**
  - Casglu ac adrodd ar ddata allyriadau carbon; a
  - Chynnwys y daith gaffael;
- **Datblygu mewnwelediadau:**
  - Templed astudiaeth achos / pensaernïaeth gwybodaeth / llyfrgell;
- **Mynediad i hyfforddiant:**
  - Cynnwys y daith gaffael;

Er bod y tîm yn bwriadu blaenoriaethu un opsiwn gwasanaeth ar gyfer pob un o'r 3 maes, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd casglu ac adrodd ar ddata allyriadau carbon. Felly cafodd hyn ei gynnwys fel rhan o'r maes rhannu arferion da, a oedd hefyd yn cefnogi'r gwasanaethau a fydd yn cael eu prototeipio a'u profi fel rhan o ddatblygu mewnwelediadau a mynediad at hyfforddiant. Mae'r holl opsiynau gwasanaeth hyn yn ategu ei gilydd felly rhagwelir y bydd potensial gwerth yn fwy na swm y rhannau.

#### 5.3.3. Y daith gaffael

Gan fod y daith gaffael yn darparu 'asgwrn cefn' i'r cylch oes masnachol ac yn sail i'r tri maes, canolbwyntiodd y tîm ar hyn yn ystod y sesiwn a gynhaliwyd gyda'r grŵp profi ar 25 Ionawr 2023. Gofynnwyd i'r grŵp hwn pa fathau o gynnwys mewn perthynas â rhannu arfer da a chael mynediad at hyfforddiant y dylai Cyd ganolbwyntio arno i guradu a/neu greu.

Roedd ymateb y grŵp profi fel a ganlyn:

*"Cynnwys syml, rhyngweithiol sy'n raddadwy ac yn hawdd ymgysylltu ag ef"; "Canllawiau y gall pawb eu defnyddio, nid gweithwyr proffesiynol masnachol a chaffael yn unig"; "Templedi"; "Enghreifftiau o brosiectau blaenorol ac astudiaethau achos"; "Deunydd ysgrifenedig, fideos a chyfryngau eraill"; "Cyfarfodydd wedi'u hwyluso ar bynciau penodol"; "Hyfforddiant"; a "Dealltwriaeth o dueddiadau'r dyfodol"*

Yn ystod chwarter cyntaf 2023-24, rhannwyd cynnwys ar gyfer 'llwybr 1' (cyfanswm gwerth amcangyfrifedig o dan £25k gan gynnwys TAW, risg isel a anailadroddus) a 'llwybr 2' (cyfanswm gwerth amcangyfrifedig rhwng £25k gan gynnwys TAW a throthwyon Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth (WTO GPA) gyda thîm Cyd i gefnogi datblygiad pellach elfennau taith caffael iteriad nesaf gwefan Cyd.

## 6. Argymhellion ar gyfer cam Alffa Estynedig Cyd

Yn seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymatebion o arolygon a gynhaliwyd a phrofion iterus gyda'r gymuned, cynigir yr argymhellion canlynol i ymestyn y cam Alffa Cyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024:

- **Datblygu a sefydlu model llywodraethu a gweithredu Cyd** - sicrhau ansawdd, dull a chynllun ymgysylltu a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol, cydgysylltu â grwpiau masnachol eraill, staffio, ac ati;
- **Monitro a gwerthuso'r** canlyniadau sero net a'r effaith a alluogwyd gan Cyd a defnyddio'r mewnwelediadau hyn i wella Cyd yn barhaus;
- **Bwrw ymlaen â datblygiad gwasanaeth adrodd ar allyriadau carbon** gyda'r nod o symud sefydliadau o adrodd Haen 1 (procsi yn seiliedig ar wariant) i Haen 2 (amcangyfrif gwell o ran $CO_2e$ yn ogystal â data Haen 1 gwell) ac, o bosibl Haen 3 ($CO_2e$ gwirioneddol);
- **Datblygu'r templedi astudiaeth achos ac adeiladu'r hyb gwybodaeth ar gyfer y daith gaffael** - iteru gwasanaethau i ehangu ehangder y cynnwys ar-lein, gan alinio â'r tîm sy'n gweithio ar yr offeryn mapio polisi;
- **Gweithio'n systematig drwy'r ôl-groniad blaenoriaethol** o opsiynau gwasanaeth pellach i'w datblygu (ar 27 Ionawr 2023);
- **Alinio â gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn ehangach** - meysydd gwaith cyflenwol ar y gweill ar gaffael digidol / cynaliadwy, a digidol a thechnoleg;
- **Alinio â thimau a gweithgareddau newid rheoleiddiol**;
- **Cymhwyso'r fethodoleg yn ehangach** i feysydd polisi caffael eraill yng Nghymru, a pharhau i brofi a **mireinio'r fethodoleg hon**;
- **Ehangu'r gymuned** gan gynnwys:

- o grwpiau sy'n ymgynnull ar y meysydd polisi hyn;
- o swyddogaethau ymarferwyr eraill sy'n canolbwyntio ar y meysydd polisi caffael hyn; a
- o sefydliadau preifat a thrydydd sector.

Bydd symud yr argymhellion hyn ymlaen yn gyfannol yn hanfodol i gefnogi'r rheolaeth newid systemig sydd ei hangen i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael a gwireddu manteision y gweithgareddau cydgysylltiedig.

### 6.1. Sefydlu llywodraethu Cyd a model gweithredu

Er mwyn i Cyd lwyddo y tu hwnt i'r cam Alffa, mae'n rhaid i ni sefydlu prosesau llywodraethu ac ystyried: sicrwydd ansawdd, cynllun a dull ymgysylltu a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol, cydgysylltu â grwpiau masnachol eraill, staffio, cyrff proffesiynol ac ati.

Gallai meysydd ffocws allweddol ar gyfer datblygu'r model llywodraethu a gweithredu ar gyfer Cyd gynnwys:

- Diffinio rheolaethau a phrosesau priodol i sicrhau bod Cyd yn parhau'n gyfredol ac yn berthnasol;
- Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli gan gynnwys ffiniau rhwng swyddogaethau a chymorth Llywodraeth Cymru, ac anghenion defnyddwyr;
- Sefydlu mecanwaith ar gyfer adborth parhaus ar draws yr holl feysydd perthnasol; a
- Archwilio opsiynau ar gyfer gweithredu Cyd y tu hwnt i statws prosiect.

### 6.2. Monitro a gwerthuso, a gwella'n barhaus

Dylid monitro gweithrediad ymarferol a chyflawniad canlyniadau sero net cadarnhaol (y polisi caffael cyhoeddus â blaenoriaeth gychwynnol) yn agos er mwyn gwerthuso'n wrthrychol yr effeithiau diriaethol sy'n cael eu galluogi gan Cyd, ar draws y dimensiynau trefnu llorweddol a fertigol a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod cychwynnol Alffa hyd at 31 Mawrth 2023:

| Dimensiynau llorweddol | Dimensiynau fertigol |
|---|---|
| • Rhannu arfer da<br>• Datblygu mewnwelediadau<br>• Mynediad i hyfforddiant | • Rheoli contractau<br>• Newidiadau rheoleiddiol<br>• Galluogrwydd ac arweinyddiaeth<br>• Polisi / sero net |

Dylid defnyddio'r mewnwelediad a'r dadansoddiad hwn i wella Cyd yn barhaus, ac i hyrwyddo rhannu arbenigedd ac arferion polisi trosglwyddadwy o fewn fforymau amlochrog byd-eang (e.e. 'Cynghrair yr Economi Llesiant', y Cenhedloedd Unedig, ac ati), gan arddangos arweinyddiaeth Cymru.

### 6.3. Bwrw ymlaen â datblygiad y gwasanaeth adrodd allyriadau carbon

Nod y gwasanaeth yma yw symud sefydliadau o adrodd Haen 1 (procsi yn seiliedig ar wariant) i Haen 2 (amcangyfrif gwell o ran $CO_2e$ yn ogystal â data Haen 1 gwell) ac o bosibl Haen 3 ($CO_2e$ gwirioneddol).

Gallai meysydd posibl i adeiladu ar hyn ganolbwyntio ymdrechion cydgysylltiedig i helpu cyflenwyr i wella eu hadroddiadau ar allyriadau; mae llawer o sefydliadau wedi mynegi diddordeb mewn defnyddio'r dull Haen 2

hwn i ddarparu amcangyfrifon mwy cywir o allyriadau'r gadwyn gyflenwi, ond ychydig sydd â data ar gael.

Byddai'r camau gweithredu arfaethedig yma'n cefnogi dull gweithredu unedig a chyson sy'n cael ei gydlynu gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â grŵp bach o awdurdodau lleol, i ddatblygu offer syml gyda chanllawiau cysylltiedig ar gyfer:

- cael olion traed carbon cyfredol gan gyflenwyr ar gyfer rhannau o'u cadwyni cyflenwi;
- datblygu mapiau trywydd lleihau carbon mewn cydweithrediad â chyflenwyr; a
- cefnogi ymdrechion i ddatgarboneiddio'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy dreialu'r uchod gyda darparwyr yn y sector hwn.

Byddai'r camau gweithredu hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn adran 'Casgliadau'r asesiad carbon' yn adroddiad Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru o fis Gorffennaf 2022, gan nodi:

> *"Mae gwahaniaethau yn nata y gwariant caffael critigol yn amlwg. Gallai hyn fod oherwydd bod gwariant yn cael ei gategoreiddio'n anghywir, neu oherwydd bod gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol yn cael eu heithrio. Mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng setiau data ariannol yn dangos yr angen i wella'r ffordd y mae gwariant ar ofal cymdeithasol yn cael ei gipio a'i adrodd."*

Gallai'r camau uchod hefyd fod o fudd i reolaeth tîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, yn ogystal â dyrannu grantiau yn seiliedig ar well data ar allyriadau sy'n cael eu hadrodd a'u crynhoi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn cefnogi busnesau yn yr economi sylfaenol i ddarparu mwy o'r cynhyrchion a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus. Dyma dri maes lle mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi cwmnïau lleol:

- Y sector gofal cymdeithasol;
- Sicrhau bod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn cael ei weini ar blatiau mewn sefydliadau yng Nghymru; a
- Ôl-osod tai a datgarboneiddio.

At hynny, byddai'r camau hyn yn cefnogi cyd-fynd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, megis ar ddatblygu offeryn ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) ar barodrwydd i gyflawni'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio.

### 6.4. Datblygu'r templedi astudiaeth achos ac adeiladu hyb gwybodaeth ar gyfer y daith gaffael

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau, gan iteru er mwyn ehangu ehangder y wybodaeth a'r cynnwys ar wefan Cyd. Byddwn yn trefnu gyda'r tîm sy'n gweithio ar yr offeryn mapio polisi i alluogi taith esmwyth i'r defnyddiwr rhwng yr offeryn a Cyd.

Gallai meysydd posibl i adeiladu ar y gwasanaeth blaenoriaeth o gasglu ac adrodd ar ddata allyriadau carbon ganolbwyntio ar:

- Adeiladu’r sylfaen wybodaeth sero net ar draws categorïau eraill – mae’r ffocws presennol ar ofal cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai meysydd eraill megis adeiladu, rheoli cyfleusterau a TG fod yn ymgeiswyr ar gyfer adeiladu sylfaen wybodaeth y daith gaffael;
- Drafftio astudiaethau achos mewn fformat diffiniedig a phrofi'r rhain gyda'r gymuned;
- Parhau i gasglu astudiaethau achos a chefnogi’r gymuned i ddatblygu “straeon am newid”, fel mewnwelediadau cynyddrannol a gwersi a ddysgwyd ar eu taith tuag at gyflawni canlyniadau sero net gwell; ac
- Wrth i ni gasglu mwy o astudiaethau achos, cysylltu'r rhain â sylfaen wybodaeth y daith gaffael ac ailadrodd templed yr astudiaeth achos i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chasglu a'i throsglwyddo i'r gymuned.

### 6.5. Gweithio drwy'r ôl-groniad blaenoriaethol

Mae profi adborth y grŵp ar y rhestr hir o opsiynau gwasanaeth, yn rhoi syniad defnyddiol o’r dewisiadau a’r blaenoriaethau ar gyfer yr hyn i ganolbwyntio arno o fis Ebrill 2023.

Yn amodol ar gael cymeradwyaeth i ymestyn cam Alffa Cyd, bydd y tîm yn gweithio'n systematig trwy'r ôl-groniad blaenoriaethol o opsiynau gwasanaeth pellach i'w datblygu, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi opsiynau gwasanaeth newydd posibl. Mae blaenoriaethu atebion, nodweddion gwasanaeth newydd, ac ati yn seiliedig ar fodloni anghenion defnyddwyr yn weithgaredd parhaus o gyflawni ystwyth.

### 6.6. Cyd-fynd â gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn ehangach

Mae nifer o feysydd gwaith cyflenwol ar y gweill neu wedi'u cynllunio y disgwylir iddynt redeg ar yr un pryd ag Alffa Estynedig Cyd:

- cynllun gweithredu digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer caffael;
- WRAP Cymru;
- rhaglen Academi Wales Llywodraeth Cymru; a
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS).

Bydd alinio Cyd â meysydd gwaith fel hyn, yn sicrhau bod asedau digidol presennol ac sydd wedi’u cynllunio yn cael eu trosoli i gefnogi cyflwyno'r cynllun gweithredu digidol ar gyfer caffael yn llwyddiannus.

### 6.7. Cysoni â newid rheoleiddiol

Bydd yn hanfodol bod yn gyson â thîm newid rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, sy’n cwmpasu’r Bil Caffael a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Gallai'r aliniad hwn fod ar sawl ffurf a byddai'n elwa o gymhwyso'r fethodoleg a'r dulliau a ddefnyddir i ganolbwyntio ar sero net. Serch hynny, yn seiliedig ar drafodaethau a gynhaliwyd gyda thîm newid rheoleiddiol Llywodraeth Cymru, argymhellir bod Cyd yn parhau i rannu a chydweithio ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr (e.e. mynd ar drywydd gwaith teg drwy gaffael cyhoeddus).

Un pryder sydd wedi dod i'r amlwg drwy ein gwaith ymgysylltu, yw bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cofleidio "y gallu i greu" mewn caffael cyhoeddus yn llawn o dan y rheoliadau newydd.

Felly, heb gynnig rheoli newid busnes sy'n anelu at godi'r bar yn gyson ar draws y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru, fel Cyd, efallai na fydd y cyfleoedd a'r buddion sy'n gysylltiedig â'r newidiadau rheoleiddio arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn.

### 6.8. Cymhwyso'r fethodoleg yn fwy eang a mireinio

Mae'r fethodoleg UCD ac ystwyth yr ydym wedi'i defnyddio yn ddull graddadwy y gellir ei ddefnyddio'n ehangach ar gyfer meysydd polisi caffael eraill. Wrth symud ymlaen, byddwn yn cymhwyso'r fethodoleg hon yn ehangach i feysydd polisi caffael eraill sy'n flaenoriaeth yng Nghymru (e.e. tryloywder, gwerth cymdeithasol, ac ati), gan barhau i fireinio'r fethodoleg drwy gyflawni iterus a chynyddrannol.

### 6.9. Ehangu cymuned Cyd

Wrth i fwy o feysydd polisi caffael Cymru gael eu blaenoriaethu, bydd nifer y rhanddeiliaid a'r grwpiau trafod yn cynyddu'n naturiol, a dylai hyn gael ei adlewyrchu gan gymuned Cyd.

Hyd yma mae ymgysylltu â'r gymuned fasnachol a chaffael wedi amlygu swyddogaethau ymarferwyr eraill (e.e. cyllid, archwilio, data digidol a thechnoleg, ac ati) sydd hefyd yn canolbwyntio ar sero net. Bydd ymestyn cyfranogiad cymunedol Cyd i'r ymarferwyr hyn yn annog mwy o gydweithio traws-swyddogaethol a dulliau mwy cyfannol o ddatrys problemau.

Sefydliadau sector cyhoeddus Cymru fu ein ffocws hyd yma. Wrth symud ymlaen bydd angen ymgysylltu â sefydliadau preifat a thrydydd sector (busnesau cymdeithasol, mentrau nid-er-elw, a busnesau democrataidd, e.e. cwmnïau cydweithredol sy'n eiddo i weithwyr), er mwyn sicrhau:

- eu bod yn deall ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- eu bod yn deall eu rhwymedigaethau o dan reoliadau caffael cyhoeddus Cymru a'r DU;
- bod Cyd yn deall ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion ar gyfer cyrchu marchnad gaffael sector cyhoeddus Cymru lle bo hynny'n bosibl; a
- eu bod yn aelodau rhagweithiol o gymuned Cyd.